# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 1**

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

**PENNOD 1**

HYBU A CHEFNOGI AELODAETH O AWDURDODAU LLEOL

*Cefnogi aelodaeth*

**4 Mynychu cyfarfodydd o bell**

(1) Nid yw cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad at gyfarfod o awdurdod lleol wedi ei gyfyngu i gyfarfod o bob person y mae pob un ohonynt yn bresennol yn yr un fangre.

(2) At ddibenion unrhyw ddeddfiad o'r fath, mae aelod o awdurdod lleol nad yw'n bresennol yn y fangre lle y cynhelir cyfarfod o'r awdurdod hwnnw ("aelod sy'n mynychu o bell") yn mynychu'r cyfarfod ar unrhyw adeg os bydd pob un o'r amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni.

(3) Yr amodau hynny yw—

(a) bod yr aelod sy'n mynychu o bell, ar yr adeg honno—

(i) yn gallu gweld a chlywed yr aelodau sy'n mynychu'r fangre, a'i fod yn gallu cael ei weld a'i glywed ganddynt,

(ii) yn gallu gweld a chlywed unrhyw aelodau o'r cyhoedd a chanddynt hawl i fynychu'r cyfarfod sy'n bresennol yn y fangre honno ac sy'n arfer hawl i siarad yn y cyfarfod, a'i fod yn gallu cael ei weld a'i glywed ganddynt, a

(iii) yn gallu cael ei weld a'i glywed gan unrhyw aelodau eraill o'r cyhoedd a chanddynt hawl felly i fod yn bresennol yn y fangre honno;

(b) bod yr aelod sy'n mynychu o bell, ar yr adeg honno, yn gallu clywed unrhyw aelod arall sy'n mynychu o bell ac y mae'r amod ym mharagraff (a) wedi ei

fodloni mewn cysylltiad ag ef ar yr adeg honno, a'i fod yn gallu cael ei glywed ganddo;

(c) nad yw defnyddio cyfleusterau sy'n galluogi'r amodau ym mharagraffau (a) a (b) i gael eu bodloni mewn cysylltiad a'r aelod sy'n mynychu o bell wedi ei wahardd gan y rheolau sefydlog neu gan unrhyw un neu ragor o reolau eraill yr awdurdod sy'n llywodraethu'r cyfarfod.

(4) Rhaid i reolau sefydlog awdurdod lleol sicrhau nad oes cworwm ar gyfer cyfarfod o'r awdurdod lleol ar unrhyw adeg pan fo nifer yr aelodau sy'n mynychu o bell yn hafal i nifer yr aelodau sy'n mynychu'r fangre neu'n fwy na'r nifer hwnnw.

(5) Caiff awdurdod lleol wneud rheolau sefydlog eraill ynghylch mynychu cyfarfodydd awdurdod lleol o bell.

(6) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd o'r awdurdod a fynychir o bell yn unol â'r adran hon.

(7) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â chyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor i awdurdod lleol fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chyfarfod o awdurdod lleol.

(8) Ond ni chaiff person sy'n aelod cyfetholedig o bwyllgor neu is-bwyllgor fod yn aelod sy'n mynychu cyfarfod o bell yn rhinwedd yr adran hon.

(9) At ddiben yr adran hon—

(a) mae cyfeiriad at berson (A) yn gweld person arall (B) i'w ddehongli fel cyfeiriad at A yn gweld B pan fo B yn siarad yn y cyfarfod;

(b) mae cyfeiriad at berson (C) yn cael ei weld gan berson arall (D) i'w ddehongli fel cyfeiriad at C yn cael ei weld gan D pan fo C yn siarad yn y cyfarfod.

(10) Yn yr adran hon—

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas â phwyllgor neu is-bwyllgor i awdurdod lleol, yw person sy'n aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, ond nad yw'n aelod o'r awdurdod;

ystyr "aelod sy'n mynychu'r fangre" ("*member in actual attendance*"), mewn perthynas â chyfarfod o awdurdod lleol, yw aelod o'r awdurdod sy'n mynychu'r cyfarfod yn y fangre lle y cynhelir y cyfarfod.